Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 3 ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2)

Chwefror 2023

## Cyflwyniad

**1.** Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 3 ("Memorandwm Rhif 3") mewn perthynas â'r Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) gerbron y Senedd ar 11 Rhagfyr 2024.[1]

**2.** Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'w ystyried, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 2 Chwefror 2024.

## 1. Ein dull ni

**3.** Bu'r Pwyllgor yn trafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 3 yn ei gyfarfod ar 17 Ionawr 2024.[2]

**4.** Mae ein hadroddiadau a'n hymatebion blaenorol ar gael ar wefan y Senedd.[3]

---

[1] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol
[2] Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 17 Ionawr 2024
[3] Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol

## 2. Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2)

**5.** Cafodd y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2)[4] ("y Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 8 Mawrth 2023.

**6.** Prif amcan polisi'r Bil, fel y'i disgrifir yn y Nodiadau Esboniadol cysylltiedig,[5] yw:

> *"...diweddaru a symleiddio fframwaith diogelu data'r DU gyda'r bwriad o leihau beichiau ar sefydliadau ond ar yr un pryd, gynnal y safonau uchel o ran diogelu data."*[6]

**7.** Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaethau, ymhlith eraill, i ddiwygio'r rheoleiddiwr (y Comisiynydd Gwybodaeth), i sefydlu fframwaith ar gyfer darparu Gwasanaethau Dilysu Digidol (DVS) yn y DU, ac i ddiwygio'r ffordd y mae genedigaethau a marwolaethau yn cael eu cofrestru yng Nghymru a Lloegr.

**8.** Cafodd y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol [7]ei osod yn Nhŷ'r Cyffredin ar 18 Gorffennaf 2022. Fodd bynnag, cafodd y Bil hwn ei ohirio cyn ei ail ddarlleniad a'i dynnu'n ôl wedi hynny ar 8 Mawrth 2023. Mae'r Bil yn disodli'r Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol gwreiddiol.

## 3. Y darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

**9.** Mae Rheol Sefydlog 29[8] yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fo Bil gan Lywodraeth y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru:

---

[4] Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2)
[5] Nodiadau Esboniadol ar gyfer y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) – 7 Rhagfyr 2023
[6] Nodiadau Esboniadol ar gyfer y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) – 7 Rhagfyr 2023
[7] Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol
[8] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru – Rheol Sefydlog 29

a. at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (ac eithrio darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, dros dro, atodol neu ddarpariaethau arbed sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd); neu

b. sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.[9]

**10.** Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 3 yn disgrifio'r newidiadau a wnaed i'r Bil yn ystod y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin sydd, ym marn Llywodraeth Cymru, yn gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd.

**11.** Dylid nodi bod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 3 yn cyfeirio at gymalau fel y'u rhifwyd cyn i'r Bil gael ei ailgyhoeddi pan gaiff ei ddwyn o Dŷ'r Cyffredin i Dŷ'r Arglwyddi.

## Gwelliannau 79-80 – Gwasanaethau Dilysu Digidol (DVS)

**12.** Mae Gwelliannau 79 ac 80 yn diwygio cymalau 56 (54 fel y'i cyflwynwyd, 74 bellach) a 60 (56 fel y'i cyflwynwyd, 78 bellach), sy'n gwneud darpariaeth ynghylch rhannu gwybodaeth at ddibenion darparu Gwasanaethau Dilysu Digidol (DVS).

**13.** Nid yw Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 3 yn rhoi unrhyw fanylion am y gwelliannau penodol hyn. Rydym yn ymhelaethu ac yn adlewyrchu ar hyn yn ein casgliad ar ddiwedd yr adroddiad. Yn hytrach, mae'n canolbwyntio ar ddiben cymalau 56 a 60. Beth bynnag, bwriad y gwelliannau yw egluro bod "awdurdod cyhoeddus" at ddiben y cymalau hynny yn golygu personau y mae eu swyddogaethau o natur gyhoeddus yn gyfan gwbl, neu'n rhannol.

**14.** Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai diben cymalau 56 a 60 yw galluogi darpariaeth Gwasanaethau Dilysu Digidol, yn hytrach na rheoleiddio'r ddarpariaeth o'r gwasanaeth hwnnw.[10] Felly, mae'n ystyried bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer gwelliannau sy'n ymwneud â'r cymalau hynny.

---

[9] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru – Rheol Sefydlog 29
[10] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol – paragraff 17

**15.** Fodd bynnag, mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 3[11] yn egluro'n gryno nad yw Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer y gwelliannau gan ei bod o'r farn bod y mater a gedwir yn ôl 'gwasanaethau rhyngrwyd' yn berthnasol. Adlewyrchir hyn yn y Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â fersiwn gyfredol y Bil.[12]

**16.** Ein barn ni yn gyson yw mai pwrpas cymalau 56 a 60 yw hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaeth digidol. Bydd y gwasanaeth hwnnw'n cael ei ddarparu ar-lein yn ddieithriad. Felly, rydym o'r farn bod y mater a gedwir yn ôl 'gwasanaethau rhyngrwyd' yn cael ei ddefnyddio.

**17.** Er nad y prawf o dan Reol Sefydlog 29.1(i) yw a oes gan y Senedd y cymhwysedd deddfwriaethol i basio'r un ddarpariaeth yn union (gall darpariaeth fod â diben datganoledig ond parhau i fethu un o'r profion cymhwysedd deddfwriaethol), nid yw'r gwelliannau, yn ein meddyliau ni, yn gwneud darpariaeth at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**18.** Nodir ym mhob Memoranda i'r Bil, gan gynnwys Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 3, nad oes unrhyw ddarpariaethau eraill yn Rhan 2 o'r Bil, sy'n ymwneud â Gwasanaethau Dilysu Digidol, wedi'u nodi fel rhai sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd.[13] Yn dilyn ei ystyriaeth o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol sy'n ymwneud â'r Bil hwn,[14] ysgrifennodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at Lywodraeth Cymru ar 15 Mai 2023 yn gofyn am ragor o wybodaeth ynghylch pam na geisiwyd cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â chymalau sylweddol eraill yn Rhan 2.[15]

**19.** Daeth ymateb i law ar 14 Mehefin 2023, a oedd yn nodi (mewn ymateb i gwestiwn 1) safbwynt Llywodraeth Cymru mai diben cymalau 54 (74 bellach) a 56 (78 bellach) yw hwyluso'r ddarpariaeth o wasanaethau dilysu digidol a gwella'r gwasanaeth a gynigir i'r defnyddiwr, yn hytrach na

---

[11] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol – paragraff 18
[12] Nodiadau Esboniadol ar gyfer y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) – paragraffau 1311-1312 -7 Rhagfyr 2023
[13] Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol
[14] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2)
[15] Llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawder a'r Cyfansoddiad at Lywodraeth Cymru ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) – 15 Mai 2023

rheoleiddio darpariaeth y gwasanaeth (sef diben y cymalau eraill yn Rhan 2 o'r Bil, yn ei barn hwy).[16]

**20.** Ailadroddwyd y farn hon yn ymateb Llywodraeth Cymru ar y cyd i ddau adroddiad y Pwyllgor ar 5 Medi 2023.[17] Yn ogystal, roedd yr ymateb hwn o'r farn nad yw'r mater a gedwir yn ôl "telathrebu" yn berthnasol i ddeunydd sy'n cael ei drosglwyddo, ond yn hytrach, mae'n ymwneud â sut y mae'r deunyddiau cyfathrebu hynny'n cael eu trosglwyddo ac, ar y sail hon, bod cymalau 56 a 60 (74 a 78 bellach) yn ymwneud â materion datganoledig gwasanaethau cyhoeddus, yr economi a busnes. Fodd bynnag, ni roddodd yr ymateb sylw i'r mater a gedwir yn ôl 'gwasanaethau rhyngrwyd'.[18]

**Conclusion 1.** Rydym yn anghytuno â Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 56 a 60, a gwelliannau 79 ac 80 i'r cymalau hynny, sy'n ymwneud â Gwasanaethau Dilysu Digidol.

## Rhan 3: Data Cwsmeriaid a Data Busnes (Data Clyfar)

**21.** Mae Rhan 3 o'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch rhannu gwybodaeth cwsmeriaid a busnesau i wneud data yn fwy cludadwy (Data Clyfar). Mae'r cymalau hyn yn caniatáu ar gyfer rhannu data yn ddiogel, ar gais y cwsmer, â darparwyr trydydd parti awdurdodedig (ATPs), a fyddai wedyn yn defnyddio'r data i ddarparu gwasanaethau i'r cwsmer, gan gynnwys cyfnewid cyfrif yn awtomatig, gwasanaethau cymharu'r farchnad a rheoli cyfrifon personol. Gall y cwsmer fod yn ddefnyddiwr neu'n fusnes.

**22.** Nodwn fod Memorandwm Rhif 3 yn nodi amryw welliannau i Ran 3 y mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer[19]. Y rhain yw:

- NC27, 103, 109, 126, 133: Cyrff rhyngwyneb (a diwygiadau canlyniadol);
- NC31: Atebolrwydd mewn iawndal;

[16] Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar adroddiad Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 2 – 14 Mehefin 2023
[17] Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 2
[18] Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol
[19] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol – paragraff 12

- NC32: Darpariaeth data arall;
- Gwelliannau 82 i 196: gwelliannau amrywiol i Ran 3.[20]

**23.** Nodir bod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 3 yn brin o fanylion am effaith y gwelliannau hyn. Rydym yn ymhelaethu ac yn adlewyrchu ar hyn yn ein casgliad ar ddiwedd yr adroddiad.

**24.** Mae Gwelliant NC27 yn mewnosod cymal newydd sy'n galluogi rheoliadau o dan Ran 3 o'r Bil i wneud darpariaeth ynghylch cyrff (a elwir yn "gyrff rhyngwyneb") sy'n darparu cyfleusterau neu wasanaethau a ddefnyddir ar gyfer darparu, cyhoeddi neu brosesu data am gwsmeriaid neu ddata am fusnesau, neu osod safonau neu wneud trefniadau eraill mewn cysylltiad â chyfleusterau neu wasanaethau o'r fath. Gall hyn gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) ddarpariaeth ynghylch cyfansoddiad a threfniadau llywodraethu'r corff, a darpariaeth ynghylch sut y mae'r corff yn cyflawni ei swyddogaethau. Mae Gwelliannau 103, 109, 126 a 133 yn ganlyniadol i Welliant NC27, yn ogystal â gwelliannau eraill nad ydynt wedi'u nodi felly ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 3. Byddai'r pwerau o dan Ran 3 i wneud rheoliadau yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Trysorlys.

**25.** Mae Gwelliant NC31 yn mewnosod cymal newydd yn y Bil i alluogi rheoliadau o dan Ran 3 i ddarparu nad yw personau penodol yn atebol am iawndal wrth arfer swyddogaethau o dan reoliadau o'r fath.

**26.** Mae Gwelliant NC32 yn mewnosod cymal newydd i alluogi'r pwerau gwneud rheoliadau o dan Ran 3 i gael eu defnyddio i ategu is-ddeddfwriaeth bresennol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddata am gwsmeriaid neu ddata am fusnesau gael eu darparu i gwsmeriaid ac eraill.

**27.** Mae'r diwygiadau eraill i Ran 3 yn cynnwys diwygiadau technegol a chanlyniadol yn bennaf. Fodd bynnag, mae eraill yn ychwanegu at y darpariaethau y gellir eu nodi drwy reoliadau a wneir o dan Ran 3, megis Gwelliant 140 sy'n galluogi rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau (h.y. y personau penodedig a gaiff benderfynu a yw person yn bodloni'r amodau ar gyfer awdurdodiad neu gymeradwyaeth er mwyn cael data am gwsmeriaid a data am fusnesau) gael gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion. Er nad ydynt wedi'u nodi ym Memorandwm

[20] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol – paragraff 12

Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 3, mae eraill yn ganlyniadol i welliant NC27 ynghylch cyrff rhyngwyneb (yn ogystal â Gwelliannau 103, 109, 126 a 133), megis Gwelliannau 156 a 157.

**28.** Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 3 yn esbonio bod Llywodraeth Cymru o'r farn:

> *"gan fod y ddau LCM wedi'u gosod yn flaenorol mewn perthynas â'r darpariaethau hynny, mae LCM pellach yn ofynnol ar gyfer gwelliannau at yr un diben."*[21]

**29.** Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei barn yn y memoranda blaenorol bod darpariaethau yn Rhan 3 o'r Bil yn ymwneud â phwrpas datganoledig busnes a'r economi.

**30.** Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 3 yn mynd ymlaen i ddweud[22] bod Llywodraeth Cymru yn aros am asesiad Llywodraeth y DU o'r angen am gydsyniad deddfwriaethol mewn cysylltiad â'r gwelliannau sy'n ymwneud â Rhan 3. Fodd bynnag, nodir hefyd fod y Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi'r canlynol mewn perthynas â chynlluniau Data Clyfar, sy'n dod o dan Ran 3 o'r Bil:[23]

> *"While many aspects of the proposals are reserved, some areas are devolved (e.g. where the customer is a business and not an individual […]). Therefore a LCM is required in all three Devolved Administrations."*[24]

**Conclusion 2.** Rydym yn cytuno bod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y gwelliannau sy'n ymwneud â Rhan 3 o'r Bil.

## Gwelliannau NC39-42, NS2, 215 – Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol

---

[21] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol – paragraff 12
[22] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol – paragraff 19
[23] Nodiadau Esboniadol ar gyfer y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) – paragraff 1318 - 7 Rhagfyr 2023
[24] Nodiadau Esboniadol ar gyfer y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) – paragraff 1318 - 7 Rhagfyr 2023

**31.** Trwy Welliannau NC39-42 ac NS2, mewnosodir cymalau newydd yn y Bil sy'n gwneud gwelliannau i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 ac yn mewnosod Rhan ac Atodlen newydd iddi ("Deddf 1991"). Mae'r darpariaethau hyn yn ei gwneud yn ofynnol cadw cofrestr o wybodaeth sy'n ymwneud â chyfarpar ar strydoedd a fydd yn cael ei galw'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol (NUAR), ac yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â hynny. Mae Gwelliant 215 yn ganlyniadol i Welliannau NC39, NC40 ac NS2.

**32.** Mae'r Bil yn rhoi'r NUAR ar sail statudol. Mae'r Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn esbonio[25] bod y NUAR yn:

> *"…digital map that aims to improve both the efficiency and safety of underground work by providing secure access to location data about pipes, cables and other types of apparatus installed in streets."*[26]

**33.** Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi[27] rhesymeg Llywodraeth y DU dros gyflwyno'r cymalau hyn, gan ddweud:

> *"…currently there is no standardised method […] with multiple organisations having to be contacted for each dig, providing information in varied formats, scales, quality and on different timelines resulting in a complex process for installing, maintaining, operating and repairing buried apparatus" and, as such, "The measures aim to simplify and expedite the process by which apparatus data is shared by requiring undertakers to share their data in a prescribed manner through NUAR."*[28]

**34.** Mae pwnc Deddf 1991 yn fater datganoledig. Ei ddiben oedd diwygio'r gyfraith a oedd yn ymwneud â ffyrdd fel y gellid darparu ffyrdd newydd

---

[25] Nodiadau Esboniadol ar gyfer y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) – paragraff 48 - 7 Rhagfyr 2023
[26] Nodiadau Esboniadol ar gyfer y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) – paragraff 48 - 7 Rhagfyr 2023
[27] Nodiadau Esboniadol ar gyfer y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) – paragraffau 46-49 - 7 Rhagfyr 2023
[28] Nodiadau Esboniadol ar gyfer y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) – paragraffau 46-49 - 7 Rhagfyr 2023

drwy ddulliau newydd, gwneud darpariaeth mewn perthynas â gwaith stryd, ac at ddibenion cysylltiedig.

**35.** Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf 1991 mewn perthynas â Chymru, ac eithrio o dan adran 167(3) (cymhwyso i'r Goron), i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Cynulliad wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.[29]

**36.** Hefyd, am y rhesymau a nodir isod ynghylch dychwelyd pwerau dirprwyedig yn unol â Gwelliant NC42, bydd y diwygiadau a nodwyd yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.1(ii).[30]

**Conclusion 3.** Rydym o'r farn bod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Gwelliannau NC39-42, NS2 a 215.

**37.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd o'r farn bod hyn yn fater cymhwysedd datganoledig.[31]

**38.** Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 3 hefyd yn egluro bod Llywodraeth Cymru yn dal i aros am asesiad Llywodraeth y DU o'r angen am gydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r darpariaethau newydd sy'n ymwneud â'r NUAR.[32] Fodd bynnag, nodir bod y Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn datgan fel a ganlyn:[33]:

> *"Legislative competence for the subject matter of Part 3 of the New Roads and Street Works Act 1991 (which concerns street works) is devolved to Wales. As these provisions make amendments to Part 3 of the 1991 Act in relation to this devolved subject matter, an LCM will be required from Wales.*

---

[29] Deddf Llywodraeth Cymru 2006
[30] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru – Rheol Sefydlog 29
[31] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol – paragraff 14
[32] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol – paragraff 19
[33] Nodiadau Esboniadol ar gyfer y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) – paragraffau 1309-1310 - 7 Rhagfyr 2023

*In addition, some existing functions in this area, currently exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales, will be transferred so as to be solely exercisable by the Secretary of State in relation to England and Wales. As this approach will modify the executive competence of the Welsh Ministers this provides an additional basis on which an LCM will be required from Wales."*[34]

## Pwerau dirprwyedig

**39.** Mae'r gwelliannau hyn i'r Bil yn rhoi amryw bwerau i wneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ran 3A newydd o Ddeddf 1991. Fel enghraifft, mae hyn yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau i wneud darpariaeth mewn cysylltiad â sicrhau bod gwybodaeth a gedwir ar NUAR ar gael o dan drwydded neu heb drwydded,[35] gwneud darpariaeth mewn perthynas â ffioedd y mae'n ofynnol i ymgymerwyr eu talu mewn cysylltiad â'r NUAR[36], a gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgymerwyr gael cyfarpar mewn stryd i ddarparu gwybodaeth benodol i'r Ysgrifennydd Gwladol.[37]

**40.** Mae'r pwerau hyn i wneud rheoliadau yn berthnasol mewn perthynas â Chymru mewn maes sydd wedi'i ddatganoli. Gan y byddai'r pwerau i wneud rheoliadau yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol, nid oes gofyniad i'r rheoliadau gael eu gosod gerbron y Senedd.

**41.** Mae Gwelliant NC39 yn darparu bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol, cyn gwneud rheoliadau o dan Ran 3A newydd o Ddeddf 1991, ymgynghori â Gweinidogion Cymru.

## Dychwelyd pwerau dirprwyedig oddi wrth Weinidogion Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol a dirymu is-ddeddfwriaeth y Senedd

**42.** Yn nodedig, yng Ngwelliant NC42, mae pwerau gwneud rheoliadau o dan adran 79 o Ddeddf 1991, i'r graddau y gellir eu harfer mewn perthynas â Chymru, i'w trosglwyddo o Weinidogion Cymru yn ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol.

[34] Nodiadau Esboniadol ar gyfer y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) – paragraffau 1309-1310 - 7 Rhagfyr 2023
[35] Yn unol â'r adran newydd 106B o Ddeddf 1991, sydd i'w mewnosod gan y Bil
[36] Yn unol â'r adran 106C newydd o Ddeddf 1991, sydd i'w mewnosod gan y Bil
[37] Yn unol â'r adran 106D newydd o Ddeddf 1991, sydd i'w mewnosod gan y Bil

**43.** Mae adran 79(1) o Ddeddf 1991 yn darparu bod yn rhaid i “ymgymerwr” (sy’n golygu person sydd â hawl i wneud gwaith stryd mewn perthynas â’r cyfarpar[38] mewn stryd yn rhinwedd hawl statudol neu drwydded gwaith stryd[39]) gadw cofnod o leoliad pob eitem o gyfarpar sy’n perthyn iddo cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ar ôl ei osod, newid ei leoliad, dod o hyd iddo, neu gael gwybod am ei leoliad; *‘ac eithrio mewn achosion a ragnodir’*. Ar hyn o bryd mae'r pŵer hwn i eithrio yn arferadwy gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru ond byddai'n cael ei drosglwyddo'n ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol yn rhinwedd Gwelliant NC42.

**44.** Mae adran 79(2) o Ddeddf 1991 yn darparu bod yn rhaid i’r cofnodion y mae’n ofynnol eu cadw yn rhinwedd adran 79(1) gael eu diweddaru a hynny’n unol â’r ffurf a’r dull *‘a ragnodir’*. Eto, mae'r pŵer i ragnodi ffurf a dull y cofnodion hynny yn arferadwy ar hyn o bryd gan Weinidogion Cymru ond byddai'n cael ei drosglwyddo'n ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol yn rhinwedd Gwelliant NC42.

**45.** Byddai adran 79(1A) yn cael ei mewnosod yn Neddf 1991 gan adran 46 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004"). Fodd bynnag, nid yw adran 46 o Ddeddf 2004 wedi dod i rym eto. Byddai adran 79(1A) o Ddeddf 1991 yn darparu y caiff ymgymerwyr gynnwys yn eu cofnodion leoliad unrhyw eitem o gyfarpar sy'n eiddo iddynt nad yw'n ofynnol ei gynnwys yn y cofnod hwnnw *‘ac eithrio mewn achosion a ragnodir’*. Pe bai adran 46 o Ddeddf 2004 yn dod i rym, byddai'r pŵer i eithrio ar hyn o bryd yn arferadwy gan Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, mae Gwelliant NC42 yn darparu y bydd y pŵer yn cael ei drosglwyddo'n ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol.

**46.** Mae Gwelliant NC40 yn darparu, cyn gwneud rheoliadau o dan adrannau 79 neu 80 o Ddeddf 1991, bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru.

**47.** Arferodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru (fel y’i gelwid) ei bwerau (sydd bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru) yn adran 79 o Ddeddf 1991 i wneud Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Cymru) 2005. Daeth y

---

[38] Diffinir *'cyfarpar'* at ddibenion Rhan 3 o Ddeddf 1991 fel ‘*unrhyw strwythur ar gyfer gosod cyfarpar ynddo neu er mwyn cael mynediad at gyfarpar’* (adran 105(1) o Ddeddf 1991), gyda *‘chyfarpar’* yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) *‘carthffos, draen neu dwnnel’* (adran 89(3) o Ddeddf 1991). Mae'r un diffiniad yn gymwys i Ran 3A newydd o Ddeddf 1991, sydd i'w mewnosod gan y Bil, o dan gymal 106I(1) newydd o Ddeddf 1991, sydd i'w fewnosod hefyd gan y Bil). O ystyried y diffiniad statudol, byddai hyn hefyd yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) bibellau, dwythellau, ceblau, gorchuddion ac ati.
[39] Yn unol ag adran 48(5) o Ddeddf 1991

Rheoliadau hynny i rym ar 1 Rhagfyr 2005 ac maent yn parhau i fod mewn grym. Mewn perthynas â Chymru, maent yn rhagnodi ffurf y cofnodion o gyfarpar a roddir mewn strydoedd y mae ymgymerwyr i'w cadw.

**48.** Mae Gwelliant NC42 yn dirymu Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Cymru) 2005. Mae hefyd yn ymestyn Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Lloegr) 2002, sy'n gymwys ar hyn o bryd o ran Lloegr yn unig ac sy'n gwneud darpariaeth debyg i ffurf a dull cofnodion o gyfarpar i fod yn gymwys yng Nghymru.

**49.** Mae'r Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi fel a ganlyn[40]:

> *"In order for NUAR to operate effectively across England and Wales, it is necessary to ensure consistency in approach across both of these parts of the United Kingdom. As such, powers to make regulations which supplement the provision made by these clauses (and the sections of the 1991 Act they amend) are only exercisable by the Secretary of State, who will make provision in respect of both England and Wales.*
>
> *Currently, the existing powers to make regulations in section 79 of the 1991 Act are exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales. Given the need for a consistent approach, this clause transfers these regulation-making powers to the Secretary of State, who will be able to make provision in respect of both England and Wales. As set out below, wherever the Secretary of State proposes to make regulations in exercise of these powers, the Secretary of State must first consult the Welsh Ministers so as to ensure their views are taken into account.*
>
> *Separate regulations have previously been made, by the Secretary of State and the Welsh Assembly, in exercise of these powers in section 79 of the 1991 Act. To reflect the new approach as set out above, subsection (3) of clause 141 amends the Street Works (Records) (England) Regulations 2002 so as to extend and*

[40] Nodiadau Esboniadol ar gyfer y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) – paragraffau 972-974 - 7 Rhagfyr 2023

> *apply to both England and Wales, whilst subsection (4) revokes the Street Works (Records) (Wales) Regulations 2005."*[41]

**50.** Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod ganddi *"bryderon polisi cyfansoddiadol"* ynghylch trosglwyddo'r pwerau gwneud rheoliadau o dan adran 79 o Ddeddf 1991, i'r graddau y gellir eu harfer mewn perthynas â Chymru, oddi wrth Weinidogion Cymru yn ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol.[42]

**51.** Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 3 yn nodi bod trafodaethau yn cael eu cynnal ar lefel swyddogol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i *"deall hyn yn fanylach"*[43]. Fodd bynnag, nid yw'n ymhelaethu ymhellach ar bryderon Llywodraeth Cymru, er gwaethaf barn y Prif Weinidog nad yw'n briodol iddo argymell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad ar gyfer unrhyw un o'r gwelliannau sy'n ymwneud â'r NUAR newydd.[44]

**52.** Mae'r ffaith bod trafodaethau ar y pwnc hwn yn digwydd ar hyn o bryd ar y lefel swyddogol yn hytrach nag ar lefel Weinidogol yn bwysig yn ein barn ni, gan y gallai uwchgyfeirio'r trafodaethau fod wedi helpu tryloywder. Mae hyn hefyd er gwaethaf y ffaith bod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 3 yn nodi bod ymgysylltiad ar lefel Gweinidogol wedi digwydd mewn perthynas ag agweddau eraill ar y Bil.[45]

# 4. Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil

**53.** Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol argymell rhoi cydsyniad mewn perthynas ag unrhyw un o'r gwelliannau a nodwyd gan Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 3 *"nes bod trafodaethau pellach wedi'u cynnal gyda Llywodraeth y DU..."* mewn perthynas â'i

---

[41] Nodiadau Esboniadol ar gyfer y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) – paragraffau 972-974 - 7 Rhagfyr 2023
[42] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol – paragraff 22
[43] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol – paragraff 22
[44] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol – paragraff 24
[45] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol – paragraff 6

phryderon. Mae safbwynt Llywodraeth Cymru wedi'i nodi ym mharagraffau 20-22, a 24, o Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 3.[46]

**54.** Mae'n esbonio bod y pryderon a amlinellir yn y ddau Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol blaenorol yn parhau mewn perthynas â goblygiadau datganoledig:[47]

a. Y pwerau gwneud rheoliadau sy'n cael eu rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Trysorlys o dan Ran 3 o'r Bil;

b. Y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Trysorlys i gyhoeddi Cod Ymarfer o dan gymal 56 (78 bellach) mewn perthynas â datgelu gwybodaeth o dan Wasanaethau Dilysu Digidol.[48]

**55.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn dweud bod pryderon yn parhau mewn perthynas â'r:

> *"...effaith y gallai'r Bil ei chael ar statws Digonolrwydd Data'r DU ac annibyniaeth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth."*[49]

**56.** Mewn perthynas â'r cymalau newydd sy'n ymwneud â'r NUAR, mae Llywodraeth Cymru yn mynegi pryderon polisi cyfansoddiadol:

> *"...ynghylch trosglwyddo'r pwerau gwneud rheoliadau o dan adran 79 o Ddeddf 1991, i'r graddau y gellir eu harfer mewn perthynas â Chymru, oddi wrth Weinidogion Cymru yn ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar lefel swyddogol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddeall hyn yn fanylach."*[50]

---

[46] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol – paragraffau 20 – 22, a 24
[47] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol – paragraff 20
[48] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol – paragraff 20
[49] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol – paragraff 21
[50] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol – paragraff 22

# 5. Y goblygiadau ariannol

**57.** Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 3 yn nodi'r goblygiadau ariannol fel a ganlyn:

> *“Mae'n debygol y bydd goblygiadau ariannol i Gymru o ganlyniad i'r darpariaethau NUAR newydd. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y DU yn ystyried rhyw fath o fodel gwefru ar gyfer defnyddio'r NUAR, yn seiliedig ar opsiwn model adfer costau nid er elw. Gall hyn gynnwys rhyw fath o daliadau gostyngol neu esemptiad ar gyfer cyrff sector cyhoeddus a busnesau bach a microfusnesau. Mae swyddogion yn gofyn i Lywodraeth y DU am fwy o fanylion am hyn, y costau tebygol i Gymru a'r hyn y bydd yn ei olygu'n ymarferol.”*[51]

# 6. Casgliad

**58.** Ein barn ni yw:

a. nad oes angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Gwelliannau 79-80 (Gwasanaethau Dilysu Digidol);

b. bod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Gwelliannau NC27, NC31, NC32 ac 82-196 (Data am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau (Data Clyfar)), a gwelliannau NC39-42, NS2 a 215 (y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol).

**59.** Mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad nad yw'n briodol argymell cydsyniad ar gyfer unrhyw un o'r darpariaethau a amlinellir ym Memorandwm Rhif 3 nes y bydd wedi cynnal trafodaethau pellach â Llywodraeth y DU.[52]

**60.** Mae gan fersiwn gyfredol y Bil oblygiadau mewn perthynas â chymhwysedd gweithredol datganoledig, yn enwedig mewn perthynas â dychwelyd pwerau dirprwyedig o dan adran 79 o Ddeddf 1991 (fel y'i

---

[51] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol – paragraff 23

[52] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol – paragraffau 20 – 22, and 24

diwygiwyd gan y Bil) oddi wrth Gweinidogion Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol. Er ei bod yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan y pŵer dirprwyedig hwn (yn unol ag adran 80 o Ddeddf 1991, fel y'i diwygiwyd gan y Bil), ni fyddai trefniant cydsynio yn cael ei roi ar waith.

**61.** Yn yr un modd, mae pwerau dirprwyedig yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Trysorlys mewn meysydd datganoledig yn Rhan 3 o'r Bil, a Rhan 3A newydd, ac adran 80, o Ddeddf 1991. O ran y pwerau hyn sy'n arferadwy o dan Ddeddf 1991, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru, ond nid oes angen eu cydsyniad.

**62.** Trwy estyniad, mae hyn yn effeithio ar rôl y Senedd gan na fyddai'n ofynnol i reoliadau a wneir o dan y pŵer a ddychwelwyd yn adran 79 ddiwygiedig o Ddeddf 1991 gael eu gosod gerbron y Senedd. Yn hytrach, byddent yn cael eu gosod gerbron Senedd y DU. Yn yr un modd, ni fyddai'n ofynnol i reoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Trysorlys o dan Ran 3 o'r Bil, neu adran 80 neu'r Rhan 3A newydd o Ddeddf 1991, (sy'n ymwneud â meysydd datganoledig) gael eu gosod gerbron y Senedd.

**63.** Yn yr un modd, mae Gwelliant NC42 yn dirymu Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Cymru) 2005 ac, yn ei le, yn ymestyn cymhwysiad Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Lloegr) 2002, sydd ar hyn o bryd yn gymwys mewn perthynas â Lloegr yn unig, i Gymru.

**64.** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei phryderon o ran dychwelyd pwerau gwneud rheoliadau yn unol â Gwelliant NC42, ond mae'n egluro bod trafodaethau'n cael eu cynnal ar lefel swyddogol, yn hytrach nag ar lefel Weinidogol.[53]

**65.** Yn olaf, mae Rheol Sefydlog 29.3(ii) yn nodi bod yn rhaid i femorandwm cydsyniad deddfwriaethol, *"[b]ennu i ba raddau y mae (neu y byddai) y Bil yn gwneud darpariaeth berthnasol"*.[54] Nodir bod diffyg manylion ym Memorandwm Rhif 3 mewn perthynas ag effaith llawer o'r gwelliannau y nodwyd bod angen cydsyniad deddfwriaethol ar eu cyfer, yn enwedig o ran gwelliannau i Ran 3 o'r Bil a'r rhai sy'n ymwneud â Gwasanaethau Dilysu Digidol. Mae hyn yn atal tryloywder ac yn cael effaith andwyol ar allu'r

---

[53] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol – paragraff 22
[54] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru – Rheol Sefydlog 29

Senedd i graffu'n effeithiol ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 3 ac effaith deddfwriaeth Senedd y DU mewn perthynas â materion datganoledig, a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Conclusion 4.** Mae'r diffyg manylion a thryloywder ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 3 ynghylch y gwelliannau i'r Bil y nodwyd eu bod yn gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd wedi rhwystro ein gallu i asesu goblygiadau polisi'r newidiadau hyn.

**66.** O ran digonolrwydd data, gwnaethom argymell yn flaenorol:

> *"Yng ngoleuni'r risgiau posibl a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru i benderfyniad yr UE ar ddigonolrwydd data y DU, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor am effaith y Bil ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE, gan gynnwys trafodaethau rhynglywodraethol ar y Bil wrth iddo fynd drwy Senedd y DU ac yn barhaus pe bai'n cael ei ddeddfu."*[55]

**67.** Yn ei ymateb, nododd y Prif Weinidog:

> *"Byddaf yn parhau i fynd ati'n rheolaidd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am effaith bosibl y Bil ar gysylltiadau rhwng yr UE a'r DU drwy'r broses Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol, yn enwedig mewn perthynas â phryderon am benderfyniad yr UE ar ddigonolrwydd data, hyd nes y byddaf yn fodlon na fydd y Bil yn effeithio ar ofynion digonolrwydd data yr UE."*[56]

**68.** Ers hynny, mae'r Prif Weinidog wedi rhannu adroddiad academaidd ynghylch deall y risgiau i drosglwyddo data personol rhwng y DU a'r UE ar draws ffiniau.[57] Nid oedd unrhyw sylwebaeth gyda'r adroddiad i nodi barn

---

[55] Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 1 a Rhif 2 ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) - Gorffennaf 2023

[56] Ymateb Llywodraeth Cymru i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol – 5 Medi 2023

[57] Understanding the risks to cross border transfer of personal data: EU-UK Data Adequacy – LSE Law School and Maynooth University, National University of Ireland Maynooth (Saesneg yn unig) – Medi 2023

Llywodraeth Cymru o'i ganfyddiadau, ond rydym yn croesawu'r ffaith bod y wybodaeth hon wedi'i rhannu'n rhagweithiol gan y Prif Weinidog.

**Conclusion 5.** Rydym yn croesawu'r camau rhagweithiol a gymerwyd gan y Prif Weinidog i rannu gwybodaeth sy'n ymwneud â phenderfyniad yr UE ar ddigonolrwydd data y DU.

**69.** Dylid nodi ein bod hefyd yn croesawu ymateb y Prif Weinidog i'r argymhelliad a nodwyd uchod yn ein Hadroddiad Blynyddol ar Gysylltiadau Rhyngwladol.[58] Yn yr adroddiad hwnnw, gwnaethom alw hefyd ar Lywodraeth Cymru i gynnwys dadansoddiad manwl fel mater o drefn o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA) lle mae materion rhwng y DU a'r UE yn cael eu dyfynnu mewn memoranda, fel a wnaed yn ystod y gwaith craffu ar y Bil hwn..

**70.** Mewn ymateb, derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn gan nodi:

> *Mae'r enghraifft o effaith bosibl y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) ar y TCA yn un da iawn ar gyfer achosion lle mae angen i ddeddfwriaeth arfaethedig y DU ystyried y Cytundeb. Rwy'n hapus i gytuno y dylai Cronfeydd Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Filiau sy'n effeithio ar y TCA nodi ein hasesiad o effaith o'r fath."*[59]

**Conclusion 6.** Rydym yn nodi nad yw memoranda dilynol yn cynnwys gwelliannau a wnaed i'r Bil

---

[58] Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar Gysylltiadau Rhyngwladol –Tachwedd 2023 – paragraff 52